# CAN NEWYDD,

SEF CYFADDEFIAD A

# Dienyddiad Robert Coe,

*Yn Abertawe, ar y 12fed o Ebrill,* 1866.

## AM LOFRUDDIO JOHN DAVIES,

*Ar y 1af o Fedi,* 1865, *yn*

## MOUNTAIN ASH, MORGANWG.



Gwrandewch y manol gymry mwyniol,
Hanes lladdfa drist echryslon—
Yn Mountain Ash mae rhai ugeiniau
Bob nos a dydd yn brudd ei bronau.

Y Llofruddedig oedd John Davies,
Ei enw sydd yn adnabyddus;
Robert Coe oedd enw 'r adyn
A'i lladdodd ef yngallt y Dyffryn.

607
2052 30112

Y cynta o fedi fel mae 'n hysbys,
Gwelwyd Coe ynghwmni Davies
Y'r oeddent fel dau gyfaill hawddgar,
Yn nhafarndy Cefenpenar.

Yr oedd Coe pryd hyn yn llawn o ddichell
Wedi ceisio benthyg bwyell;
Hon yn barod at y perwyl,
I gyflawnu erchyll orchwyl.

Denodd Davies y le unig,
Mewn i ganol coedydd tew-frig,
Tori ei ben a wnaeth ar wyell.
A speilio 'r hyn oedd yn ei logell.

Rhaid fod ganddo galon galed,
Pan gyflawnodd y fath weithred;
Lladd o falais wnaeth y filain,
Er mwyn tri swllt arddeg ar hugain.

Ceisiodd gely ddyddiau llawer
Ond y cyfan fu yn ofer;
Trefn uchlaw gwybodaeth dynion,
Ddwg i'r goleu bob dirgelion.

Er disgwyl Davies gyda phrydd-der,
Dyn mhen pedwar mis o amser,
Ganfu gorph ar lawr yn gorwedd,
Yn y coed yn ddiymgeledd.

Roedd ei goesau wedi ei clymi
A'i ben yn hollol wedi ei dori
Oddi ar ei gorph mae 'n orchwyl caled,
I ddarlunio 'r erchyll weithred.

Glyniau a'r breichiau fy mor gedyrn,
A'r cnawd yn 'madel wrth yr esgyrn,
A'r pen a'r wan oedd yno i weled
Duw 'r nef a'n cadwo rhag fath weithred.

I'r Mountain Ash y dyn a redodd,
Ag i'r swyddog y mynegodd.
Darfu lluoedd i ymgasglu
Er cludo 'r corph i'w ymgeleddu.

Roedd yr olwg arno ddigon,
I rwygo cilie unrhyw galon;
Y Tad yn methu ei adnabod,
Ond wrth ei ddillad trwm yw'r trallod·

Robert Coe am hyn gymerwyd,
Mewn i'r carchar fe a'i cyrchwyd;
Ar dydd y frawdlys nol y tystion
Cafwyd ef yn euog ddigon.

Rhoe 'r barnwr arno ddedfryd farwol
A'i gynghori yn ddifrifol,
Mae amser byr oedd ganddo yma.
Am iddo geisio nefol noddfa.

Fy ngyfaddefiad torcalonus—
Mai fi fy hun wnaeth ladd John Davies,
Hyn a wnes er mwyn ei arian,
Er nad oedd y swm ond bychan.

Gofynodd Davies mor ddiddichell,
Pa beth rown i 'n wneud a'r wyell?
Tori ffon attebes inau,
Ai ladd yn mhen ychydig Fynydau.

Ieunctyd anwyl cofiwch chwithau—
Beidio dylyn yr un llwybrau,
Yr Arglwydd fyddo'n maddeu i mi,
Am dwyn i blith y nefol deulu.

Daeth y dydd i'w ddienyddio,
Casglodd lluoedd tu ag yno;
Roent yn dod o bob cyfeiriad,
Y gael gweld ei ddienyddiad.

I'r lle cymerwyd ef yn sydyn,
Ac am ei wddf y rhoed y cortyn!
Arswyd mawr oedd gweled bachgen
Deunaw oed o dan y grogbren.

Y forit a dynwyd oddi tano,
I'r tragwyddoldeb gadd ei hyrddio;
Ag yna 'r enaid a ahedodd,
I wyddfod Duw yr hwn ai rhoddodd.

Mae hyn yn rhybydd i rieni,
Pan yn dwyn ei plant i fynu;
Wrth weled un fel hyn yn hongian,
Am ddrwg a wnaith a'i law ei hunan.

Dichon fod ei berth'nasau,
Ddydd a nos yn tywallt dagrau;
Troi at Dduw mae ef yn ddigon
I'w cynal dan ei beichiau trymion.

Gweddiwn ninau yn ddifal beunydd
Na chlwom son am fath ddihenydd
Tra bo dyddiau gras yn para
Ceisiwn am y nefol noddfa,

*Llanybyther* *Dewi Medi.*